

Nod yr aseiniad yma yw gwerthuso'n feirniadol y pwysigrwydd o arweinyddiaeth gynhwysol o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar. Hefyd, i drafod rhwystrau a phrofiadau sydd yn herio rôl o arweinydd cynhwysol ar effaith mae hyn yn gallu cael ar blant, teuluoedd, ymarferwyr a chymuned o'n gwmpas.

Rhan 1

Beth yw arweinyddiaeth cynhwysol?

Yn ôl Ferdman (2021, t.3-25) mae arweinyddiaeth gynhwysol yn cynnwys diwylliant cynhwysol o fewn grwpiau, lleoliadau gwaith a chymunedau ac sydd yn rhoi cynhwysiad i fywyd. Rhaid ystyried hefyd lleisiau a ymberthyn cynhwysol er mwyn ystyried ecwiti a thegwch ar draws hunaniaeth amryfal (Ferdman, 2021, t.3-25). Cytuna Bortini *et al.* (2018, t.1-45) a Ferdman (2021, t.3-25) bod arweinyddiaeth gynhwysol yn ganolog i berthnasoedd a gwerthfawrogiad o wahaniaethau personol. Hawlia Edwin Hollander (2008) sydd yn cael i ddyfynnu yn Bortini *et al.* (2018, t.1-45), bod parch, cydnabyddiaeth, ymatebolrwydd a chyfrifoldeb yn rhannu hanfodol o arweinyddiaeth gynhwysol. Er mwyn cynnwys y rhannau hanfodol a darparu arweinyddiaeth gynhwysol, mae angen weithio ar y cyd o fewn tîm. Felly, noda Siraj a Hallett (2014, t.17) bod y hierarchaidd arweinyddiaeth yn newid ac yn cael i ddisodli gan weithio ar y cyd.

Mae'r senario a drafodwyd yn berthnasol i riant sengl (tad) sydd wedi goresgyn caethiwed i gyffuriau. Mae wedi cael i'w asesu fel unigolyn sydd a'r gallu i ofalu am ei blentyn (Jac) ar ben ei hun. Mae'r athrawon yn yr ysgol wedi sylweddoli mae'r tad yn sefyll ar ben ei hun, i ffwrdd o rieni eraill, nad ydynt yn cael i wahodd i ymuno â'u thrafodaethau. Mae'r rhiant yn edrych yn nerfus o amgylch athrawon, a dim ond yn aros am gyfnodau byr i siarad os mae angen. Mae'r athrawon â phryderon am elfennau o ddatblygiad Jac, o ran ei iaith ac nad oes llawer o ffrindiau ganddo yn yr ysgol, mae Jac ar ben ei hun mwyafrif o'r amser. Gaeth hyn i sylweddoli gan arweinydd y lleoliad, yna aeth yr arweinydd ymlaen i ddefnyddio ei sgiliau o arweinyddiaeth gynhwysol er mwyn i'r plentyn ar dad i deimlo'n rhan o'r lleoliad a'r gymuned, i sicrhau teimlad o ymberthyn. Hawlia Sauto-Manning *et al.* (2021, t.104), bod ymberthyn yn rhan allweddol yn y blynyddoedd cynnar, gan ei fod yn effeithio datblygiad gwybyddol ac emosiynau cymdeithasol. Mae'r effaith yma yn dilyn i ymlyniad, pontio a chredoau plant o fewn ei botensial (Sauto-Manning *et al.*, 2021, t.104). Cytuna Randel *et al.*

(2018) bod cynnwys teuluoedd yn dangos arweinyddiaeth gadarnhaol o ymberthyn gan ystyried ei unigrywiaeth a chredoau personol.

Y Tad

I ddechrau'r proses o gefnogi'r teulu, gwahoddodd yr arweinydd y tad i mewn am gyfarfod, er mwyn trafod y pryderon sydd gan y lleoliad, ac i roi cefnogaeth mewn lle i'r tad a'r plentyn. Yn y cyfarfod, trafododd yr arweinydd am sut gall y lleoliad weithio'n gydweithredol i gefnogi'r teulu i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i deimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gyda'r ymarferwyr, rhieni a'r plant (Ferdman, 2021). Yn ôl Rhodd (2020) mae gweithio'n gydweithredol yn ehangu profiadau a'r amgylchedd, sydd yn cael i ddarparu i blant ifanc ac i adeiladu perthynas rhwng oedolion a phlant. Wrth weithio o fewn tîm cydweithredol, mae'n helpu i gwrdd ag anghenion pawb sy'n ymwneud â phrofiadau plant ifanc mewn gwasanaethau plentyndod cynnar (Rodd, 2020). Aeth Rodd (2020) ymlaen i ddweud bod gwaith tîm hefyd yn sicrhau'r pwysigrwydd o gwrdd ag amddiffyn hawliau'r plant ac oedolion. Hawlia Scanlan a Johnson (2020) bod gwaith cydweithredol gyda rhieni yn rhan hanfodol o arweinyddiaeth gynhwysol, er mwyn adeiladau perthnasau ac ymddiriedaeth gyda rhieni, ymarferwyr a'r plant. Dywed Freud (dim dyddiad) bod y rhieni a gofalwyr sydd â chyfraniad yn addysg a gweithgareddau'r plentyn yn yr ysgol, mae'n fwy tebygol bod y plentyn mynd i lwyddo yn berfformiad academaidd ac yn eu lles cyffredinol. Aeth Freud (dim dyddiad) ymlaen i ddweud wrth ddefnyddio dull cyfundrefnol, sef gweithio gyda theuluoedd ac ymarferwyr, mae'r plant yn gallu cael cefnogaeth effeithiol i gyrraedd ei botensial, ac i helpu pryd mae problemau yn codi.

Fodd bynnag, i rai rhieni a gofalwyr, mae gweithio gydag ymarferwyr yn gallu fod yn heriol (Freud, dim dyddiad). Dywed Kids around the clock (dim dyddiad) un o'r rhwystrau i rieni yw diffyg hyder. Aeth Kids around the clock (dim dyddiad) ymlaen i ddweud mai rhieni ddim gyda hyder i fynd at un o'r ymarferwyr yn y lleoliad i ofyn am ddatblygiad ei blentyn gan ei fod yn teimlo fel tasg digalonnes. I helpu'r rhwystr yma, mae'r lleoliad yn ffocysu ar adeiladau perthynas, er mwyn gwneud yn siŵr mae'r rhiant yn teimlo'n gyfforddus (Kids around the clock, dim dyddiad). I gefnogi hyn mae Chemanais (2009) yn dweud bod gweithio'n gydweithredol hefyd yn helpu gweithio'n amlasiantaethol, er mwyn deall beth sydd a'r gael i gefnogi datblygiad y disgyblion, fel therapydd iaith a llythrennedd. Yn ôl Hoover-Dempsey a Sandler (1997) sydd yn cael

i ddyfnu yn Wages (2016) mae mwyafrif o rieni â diffyg dealltwriaeth am sut mae systemau lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gweithio. Felly, oherwydd hyn mae rhai teuluoedd ddim yn teimlo'n rhan o'r ysgol sydd yn rhwystyr i gynnal arweinyddiaeth gynhwysol o fewn y lleoliad (Wages, 2016).

Mae'r tad wedi cael ei asesu i allu gofalu am ei fab yn annibynnol gan wasanaethau cymdeithasol, gan ei fod wedi goresgyn caethiwed i gyffuriau, felly, yn dilyn erthygl 18, mae'r plentyn yn gallu aros gyda'i thad (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Fodd bynnag, oherwydd ei hanes bydd yna wasanaethau amlasiantaethol yn cefnogi'r tad a'r plentyn. Dywed NSPCC (2019) bod gweithio'n amlasiantaethol yn hanfodol o ran diogelu ac amddiffyn plant. O dan ofal NSPCC, mae plant a theuluoedd yn cael mynediad i amrediad o wasanaethau trwy gydol bywyd y plentyn (NSPCC, 2019). Mae gwasanaeth fel Catch 22 yn darparu seicogymdeithasol, lleihau niwed ac ymyriadau teuluol ar gyfer plant a phobl ifanc a'u teuluoedd neu ofalwyr (Catch 22, dim dyddiad). Mae Catch 22 yn darparu cymorth a chyingor arbenigol, gan weithio'n agos gydag asiantaethau lleol (Catch 22, dim dyddiad). Yng Nghymru, mae gwasanaeth 'Tîm o Amgylch y Teulu' (TAF) sydd wedi cael i gynhyrchu gan awdurdodau lleol. Dywed Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin (dim dyddiad) bod y gwasanaeth yn cael i ddarparu i roi cymorth ychwanegol i deuluoedd er mwyn byw bywydau hapus, iach a llwyddiannus. Mae TAF yn helpu teuluoedd ar faterion megid pryderon ysgol ac addysg, ymddygiad iechyd a thai Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin (dim dyddiad). Mae'n debyg fydd y tad a'r mab yn mynychu'r gwasanaeth yma, a fydd hyn yn rhoi cyfle i gwrdd â phobl newydd a chael mynediad at gymorth lleol.

Mae ymarferwyr y lleoliad gyda phryderon am y tad, gan nad ydy yn siarad â rhieni eraill a dim ond yn siarad ag ymarferwyr am gyfnodau byr dim ond os mae rhaid. Yn ôl Mullins (2021) gall y diffyg trafodaeth fod oherwydd bod yna stigma a rhagfarn o amgylch y tad gyda rhieni eraill, oherwydd ei hanes a'i fod o dan amlasiantaethau gwahanol. Dywed Clarity Blog (2020) bod rhagfarn a'r rhieni yn gallu fod yn niweidiol i'r rhai sy'n cael i farnu a'u phlant, mae'n gwneud iddyn nhw deimlo'n analluog a fwy tebygol o ateb nôl mewn ffordd aflafar. Mae'n hefyd yn rhoi effaith ar y plentyn o ran teimlo cywilydd, sydd yn arwain at ymddygiad mwy negyddol i blant (Clarity Blog, 2020). Efallai mai'r tad yn osgoi trafodaethau gyda rhieni eraill oherwydd y rhagfarn sydd efallai gyda nhw, sydd gwneud iddo deimlo'n anghyfforddus yn y lleoliad. Yn

ychwanegol, gallai'r tad fod yn profi stigma croestoriad, gan fod y tad yn rhiant sengl ac oherwydd ei hanes. Dywed Babysits (dim dyddiad) bod tadau yn cael i ragfarnu yn negyddol, oherwydd y disgwyliadau fel absenoldeb tadolaeth a chyfryngau cymdeithasol sydd yn dangos y syniad o dad anymrwymedig, a mam sy'n wraig tŷ. Aeth Babysits (dim dyddiad) ymlaen i ddweud bod gan y gymdeithas ystrydeb o ddisgwyliadau isel ar gyfer tadau. Mae'r gymdeithas yn gweld mamau fel y prif addysgwyr i'r plentyn, gan fod tadau mwy tebygol o weithio, a ddim gyda digon o amser i wario gyda'r plant (Babysits, dim dyddiad). Mae tadau yn cael i weld fel darparwr a gwarchodwr (Babysits, dim dyddiad). Dylai pawb cael i drin yn deg a chael teimlad o ymberthyn o fewn y lleoliad (Randel *et al.*, 2018). Hawlia Baumeister a Leary (1995, t.508) dyfynnwyd yn Sauto-Manning *et al.*, 2021, t104) dylai pob unigolyn cael i dderbyn, cynnwys a chael i groesawu er mwyn cyflawni ymddygiad ac emosiynau positif. Nad ydy'r tad yn siarad â'r ymarferwyr yn y lleoliad, dim ond of mae angen am gyfnodau byr. Dylai ymarferwr defnyddio ei sgiliau o arweinyddiaeth gynhwysol, ac esbonio i'r tad am ei 'bolisi drws agored'. Yn ôl Gibson a Blandford (2005) polisi drws agored yw pryd mae'r lleoliad a rhieni yn gweithredu fel system agor, felly mae'r wybodaeth sy'n cael i drafod yn llifo rhwng y rhiant a'r ymarferwyr. Mae'r tad yn cwympo mewn categori 'hard to reach parents', gan y diffyg cyfathrebu. Yn ôl Departments of Education (2017) dylai'r lleoliad hyrwyddo'r polisi drws agored fel awyrgylch cynhwysol a croesawgar, er mwyn torri rhwystrau ac annog rhieni i gyrchu help o'r lleoliad os mae problemau yn codi.

Un awgrymiad yn y cyfarfod oedd i'r tad i fynychu clybiau i dadau, gyda'i fab, bydd y clybiau yma yn rhoi cyfle i'r tad ar fab i greu ac adeiladu perthnasau gyda phobl yn ei gymuned. Dywed Mens Group (dim dyddiad) bod grwpiau i dadau yn helpu cefnogi cyfeillgarwch, ac i ddysgu wrth dadau arall. Mae'n hefyd yn rhoi lle cymorth i dadau, fel adnoddau a gwybodaeth am rhianta, ond hefyd lle i roi cyngor am sut i ddechrau gyrfa (Mens Group, dim dyddiad). Yn ôl Llywodraeth Cymru (2015) mae ysgolion yn gweithio gyda'i chymunedau lleol er mwyn cryfhau ymgysylltu â theuluoedd i drechu'r rhwystrau rhag ymgysylltu sydd gan deuluoedd.

Y Plentyn

Gwahoddodd yr arweinydd y plentyn i mewn i'r cyfarfod, oherwydd o dan erthygl 12 y Confensiwn y Cenhedloedd Unedig a'r Hawliau'r Plentyn (CCUHP) mae gan bob

plentyn yr hawl i lais i ddweud beth ddylai digwydd (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Cefnoga'r hawl hyn gan ddywed bod gwrandio ar lais y plentyn yn gadael iddyn nhw gael eu hunaniaeth unigol eu hunain. Dywed Early Years Careers (2015) bod rhoi llais i blentyn yn bwysig i hyrwyddo ei hunan-barch a hunanwerth. Trwy roi llais i blentyn, maen nhw allu dewis, rhoi barn, dangos ei deimladau, er mwyn dysgu a datblygu i deimlo'n bwysig a gwerthfar (Early Years Careers, 2015). Hawlia Llywodraeth Cymru (2018) bod gwrandio ar lais plentyn yn helpu addysgwyr i ysgrifennu polisïau cryf a rhoi canlyniadau uwch, oherwydd mae'n ganolog i anghenion y plant.

Nid oes llawer o iaith gan y plentyn, felly mae'r lleoliad yn gweithio'n agos gyda'r tîm Therapyddion Iaith a Lleferydd. Dywed NHS (dim dyddiad) rôl Therapydd Iaith a Lleferydd yw helpu pobl o bob oedran gydag iaith, llyfeydd, a phroblemau cyfathrebu. Mae Therapydd Iaith a Lleferydd yn dysgu am y plentyn yn unigol, a'r teulu er mwyn i lunio cynllun unigol i gefnogi'r plentyn i ddatblygu ei iaith (NHS, dim dyddiad). Aeth NHS (dim dyddiad) ymlaen i ddweud bod Therapydd Iaith a Lleferydd yn gweithio gyda phobl broffesiynol, gofalwyr a theulu ac ymarferwyr i wneud ymyrraeth am sut i gefnogi'r plentyn. Ar ôl sesiynau o fewn yr ysgol, mae'r Therapydd Iaith a Lleferydd a'r ysgol yn rhoi adborth i'r tad er mwyn creu perthynas gyda'r tad (Ferdman, 2021). Mae'r tad wedi cytuno i adael y Therapydd Iaith a Lleferydd i fynychu'r tî er mwyn i'r plentyn cael fwy o sesiynau i ddatblygu'r iaith.

Does dim llawer o ffrindiau gan y plentyn yn y lleoliad, ac mae yn chwarae ar ben ei hun rhan fwyaf o'r amser. Yn ôl Carter a Nutbrown (2016) mae cyfeillgarwch yn golygu hoffi ei gilydd a hoffi treulio amser fel grŵp. Mae'n gyfeillgarwch cadarnhaol yn galluogi chwarae esgus Carter a Nutbrown (2016). Dywed Exchange Family Center (2019) bod cyfeillgarwch yn rhoi teimlad o ymberthyn a diogelwch i blant, gan fod cyfeillgarwch yn rhan o ansawdd bywyd plentyn. Cefnoga hyn gan Smith (2005) bog cyfeillgarwch plant yn cael i greu o amgylch ymberthyn, trwy werthfawrogi ei rhyw, oedran neu grefydd. Un ymyriad y gallai'r ysgol ei wneud gyda'r plentyn yw sesiynau ELSA (Emotional Literacy Support Assistant). Mae sesiynau ELSA yn ffocysu ar sgiliau cymdeithasol, emosiynau, profedigaeth a storiâu cymdeithasol (Elsa Support, dim dyddiad). Bydd y sesiynau yma yn helpu'r plentyn o ran datblygu ei iaith a hefyd sut i ymuno mewn yn rhyngweithiad cymdeithasol efo plant eraill. Bydd y sesiwn hefyd yn helpu'r plentyn i ddangos ei emosiynau am sut mae'n teimlo. Gweithgaredd arall mae'r ymarferwyr yn

gallu gwneud yw cael sgwrs anffurfiol gyda'r plentyn a'r tad pob dydd fel bod y plentyn yn cael sgwrs un i un gyda'r ymarferwyr. Bydd y sesiwn yma hefyd yn helpu'r tad, plentyn ar ymarferwyr i adeiladu perthynas gref, sydd yn gwneud arweinyddiaeth gynhwysol yn werthfawr (Bortini, et al., 2018). Yn ôl Ferdman (2021) dylai arweinydd cynhwysol sylwi, lleisio unrhyw bryderon neu degwch, a mynd i afael â nhw, trwy drefnu'r cam cyntaf.

Rhan 2

Mae'r adran hon yn gwerthuso'n feirniadol a yw'r polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Greenachers (Greenachers, 2015) yn galluogi arweinyddiaeth gynhwysol yn y Blynyddoedd Cynnar.

Beth yw polisi?

Yn ôl Balldock, Fitzgerald a Kay (2016) polisi yw bwriad, a ddilynir gan ymarferwyr i ddarparu gofal effeithiol yn eu lleoliad gyda chyfrifoldeb am arferion llywodraethol a gweinyddol. Mae gan bob polisi ystyr gwahanol, ond gydag elfennau cyffredin fel, synnwyr o ymberthyn, ymrwymiad, statws a manylder (Levin, 1999 dyfynnwyd yn Balldock, Fitzgerald a Kay, 2016). Mae polisi Greenachers (2015) yn bolisi micro, gan ei fod yn sefydliad unigol. Polisi micro yw gweithgaredd sydd yn cael i wneud o fewn sefydliad er mwyn caffael, datblygu a defnyddio pŵer ac adnoddau i gael canlyniadau (Science Direct, dim dyddiad). Dywed Liddicoat (2014) bod polisi macro yn bolisi gan y Llywodraeth sydd yn rhyngweithio gyda pholisi micro o leoliad addysg, fel Greenachers. Dywed Nutbrown, Clough a Atherton (2013) bod llawer o elfennau o gynhwysiant, ond yn y Blynyddoedd Cynnar mae ymarferwyr yn gallu cynllunio ei bolisi am sut maen nhw'n hyrwyddo cynhwysiant o fewn y lleoliad. Dywed Nutbrown, Clough a Atherton (2013) bod polisi cynhwysiant yn cael i ysgrifennu er mwyn i bob plentyn sydd yn mynychu lleoliad i gyd yn cael i gynnwys.

Mae Greenachers (2015) yn ceisio darparu cyfle cyfartal ac arfer gwrth-wahaniaethol i staff, plant a theuluoedd yn dilyn deddf gyfartal (2010). Nod Greenachers (2015) yw cydnabod bob plentyn yn wahanol er mwyn adnabod y ffordd orau o gefnogi pob plentyn a'i theulu. Dywed Randel *et al.* (2018) bod arweinyddion cynhwysol yn gallu cefnogi'r plentyn ar deulu yn dilyn camau i greu'r canlyniadau gorau posibl ar gyfer eu hanghenion. Mae'r polisi Greenachers (2015) yn hyrwyddo arweinyddiaeth gynhwysol ac addysg gan ei fod yn cynnwys anabledd, rhyw, hiliau a chrefydd. I ddilyn camau

arweinyddiaeth gynhwysol, i rai plant bydd angen addasu'r lleoliad i anghenion y plentyn. Er mwyn addasu'r lleoliad, dywed Child Care Extension (2019) bod rhaid cydweithio gyda rhieni, a gofalwyr i gynllunio cynllun unigol i'r plentyn, i drafod y cymorth mae angen i'r plentyn i gwrdd â'i anghenion. Mae Greenachers (2015) yn bwriadu i ddarparu amgylchedd diogel i blant i gael y gallu i flodeuo ac i deimlo'n werthfawr. Noda Hearst (2012) bod teimlad o ymberthyn yn helpu plant i lwyddo. Maen nhw hefyd yn darparu adnoddau sydd yn rhoi golwg cytbwys o'r byd ac yn rhoi gwerthfawrogiad o amrywiaeth o ein cymdeithas (Greenachers, 2015). Mae polisi Greenachers (2015) yn dangos arweinyddiaeth gynhwysol gan ei fod yn darparu adnoddau sydd yn addas i bawb yn y lleoliad, o ran gwerthfawrogi ble mae'r plentyn yn dod o, ei rhyw, a'i hiliaeth. I rai plant, angen addasu teganau a chyfarpar i gwrdd â'i anghenion (Child Care Extension, 2019).

O fewn polisi, mae'n bwysig i ystyried yr iaith sydd yn cael i ddefnyddio o fewn y ddogfen. Mae Greenachers (2015) yn defnyddio'r geiriau "adnabod bod pob plentyn yn wahanol". Yn ôl Cambridge Dictionary (dim dyddaid) mae'r gair 'adnabod' (recognise) yn golygu bod ymarferwyr yn gwybod rhywbeth am y plentyn. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn adnabod bod angen cefnogaeth ar y plentyn. Yn ogystal, mae Greenachers (2015) yn defnyddio'r gair 'darparu' (provide) sawl gwaith o fewn ei bolisi. Dywed Cambridge Dictionary (dim dyddaid) yw rhoi rhywbeth i unigolyn. Un enghraifft o ddarparu yw darparu amgylchedd cynhwysol ac adnabod unigolion, plant ac oedolion angen cyngor (Greenachers, 2015). Mae'r geiriau sydd yn cael i gynnwys yn y polisi yn eiriau sydd yn dangos arweinyddiaeth gynhwysol, gan fod ei angen darparu gofal effeithiol i bob plentyn.

I grynhoi mae'r polisi yn cyflawni arweinyddiaeth gynhwysol yn y blynyddoedd cynnar, gan ei fod yn rhoi profiadau am ddealltwriaeth a gwybodaeth sydd yn cael i ddatblygu gan ddisgyblion ac ymarferwyr.


Rhan 3

Hyrwyddo newidiadau mewn adnoddau yn y Blynyddoedd Cynnar i gefnogi amrywiaeth a chydaddoldeb

Mae'r blog yma yn ffocysu ar sut mae adnoddau o fewn y Blynyddoedd Cynnar yn newid i gefnogi pob plentyn, o ran hiliau, anghenion dysgu a chrefydd er mwyn i blant deimlo'n rhan o'r lleoliad, a theimlo'n werthfawr.

Dylai pob plentyn yn y Blynyddoedd Cynnar cael i barchu a chael i drin yn gyfartal a hefyd cael profiadau hafal i ddatblygu (Siraj, 2000). Cefnoga hyn gan CCUHP, gan fod hawl gan bob plentyn i gael addysg (erthygl 28), a dylai addysg datblygu personoliaeth a doniau pob plentyn (erthygl 29) (Comisiynydd Plant Cymru, dim dyddiad). Dywed Sauto-Manning *et al.* (2021, t.104) bod ymberthyn yn rhan hanfodol o fywyd, er mwyn lles plentyn. Dylai'r arweinydd defnyddio ei sgiliau arweinyddiaeth gynhwysol i gefnogi pob plentyn i deimlo'n rhan o'r lleolaid, a gwneud newidiadau os mae rhaid i gwrdd ag anghenion.

Dywed Early Years Resources (2021) bod hyrwyddo amrywiaeth yn y Blynyddoedd Cynnar yn hanfodol i ddatblygu plant agored, cyfeillgar a cariadus. Bydd ei ddealltwriaeth hefyd yn cynyddu ei ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o bobl eraill, ond hefyd mae'n rhoi'r cyfle i bawb i fod yn gwahannol (Early Years Careers, 2021). Dywed Community Playthings (2012) bod plant yn Y Deyrnas Unedig yn tyfu i fynnu gyda llawer o ffynonellau amrywiaeth ddiwylliannol. Aeth Community Playthings (2012) ymlaen i ddweud bod deunyddiau chwarae a llyfrau yn gallu bod yn ffordd o adlewyrchu sut mae plant ifanc yn dysgu am ddiwylliant. Yn Y Deyrnas Unedig mae yna ddiffyg amrywiaeth mewn llyfrau plant, gyda dim ond 5% o lyfrau plant sydd yn cynnwys prif gymeriad oedd yn du, asian neu leiafrifoedd ethnig (Dawson, 2021). Dywed Coleman dyfynnwyd yn Dawson (2021) bod llyfrau yn chwarae rôl bwysig wrth lunio bywyd plentyn, gan fod storiâu a chymeriadau yn effeithio sut mae plant yn gweld ei hunain a'r byd o gwmpas. Cefnoga hyn gan Scholastic Blog (2020), dywed bod llyfrau amrywiol yn annog empathi ac ymberthyn, a hefyd yn gallu dysgu pobl am ddigwyddiadau hanesyddol. Er mwyn i'r lleoliad fod yn fwy cynhwysol, gallai'r arweinydd cyflwyno llyfrau amrywiaeth a chydaddoldeb i'r lleoliad ar gyfer amser stori, i'r plant eu darllen.



(Teaching Mama, 2020)

Un peth arall mae ymarferwyr cynhwysol gallu darparu i'r lleoliad hyrwyddo amrywiaeth a chydaddoldeb, yw teganau amrywiol. Yn ôl Early Years Resources (2018) mae teganau fel dolis yn ffordd fwyaf poblogaidd i weithredu chwarae dychmygus, sydd yn hanfodol am ddatblygiad plentyn. Mae doli yn fwy na thegan i blentyn, mae fel ffrind sy'n mynegi creadigaeth plentyn (Early Years Resources, 2018). I gefnogi amrywiaeth yn y blynyddoedd cynnar, dolis wedi cael i gynhyrchu er mwyn i blant ddeall cefndiroedd efallai mai plant yn y lleoliad yn dod o. Dywed Early Years Resources (2018) bod yna dolis amlddiwylliannol a 'Down Syndrome'. Cefnoga hyn gan Lowerth (2022), dywed bod cynhwysiant yn gallu cael i ddysgu o oedran ifanc, ac mae llawer o gwmnïau yn gwneud eu rhan i greu fwy teganau yn gynhwysol. Un cwmni sydd wedi troi yn gwmni cynhwysol yw teganau 'Barbie.' Yn ôl Muir (2022) un tegan maen nhw wedi cynnwys yw doli 'Barbie' sydd gyda nam ar y clyw ac un sydd yn gadair olwyn. O adborth o deuluoedd mae'r newidiad cynhwysol yma wedi help i godi ymwybyddiaeth blant a nam ar y clyw, gan nid yw nam ar y clyw yn angen gweladwy (Muir, 2022).



(Yarn Strong Sista, 2020)



(Firstpost, 2020)



(Little I & O, 2019)

I grynhoi, mae hyrwyddo adnoddau sydd yn cefnogi amrywiaeth cydraddoldeb yn rhan hanfodol ar gyfer lleoliadau cynhwysol. Mae arweinyddiaeth gynhwysol yn bwysig i annog teimlad o ymberthyn, a rhoi profiadau i bob plentyn i ddatblygu o fewn y lleoliad.

Rhestr Cyfeirnodi

Archard, D. and Uniacke, S. (2021) 'The Child's Right to a Voice', *Res Publica*, pp.1-16. Ar gael o: <https://link.springer.com/content/pdf/10.1007/s11158-020-09491-z.pdf?pdf=button> (Darllenwyd: 30^{ain} o Dachwedd 2022)

Babysits (dim dyddiad) *Dad stereotypes: what are they?* Ar gael o: <https://www.babysits.com/community-resources/757/dad-stereotypes-what-are-they-and-how-society-defines-dads/> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Bortini, P. et al. (2018) *Inclusive Leadership: Theoretical Framework*. Ar gael o: https://inclusiveleadership.eu/il_theoreticalframework_en.pdf. (Darllenwyd 21^{ain} o Dachwedd 2022)

Cambridge Dictionary (dim dyddiad) *Meaning of provide in English*. Ar gael o: <https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/provide> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Cambridge Dictionary (dim dyddiad) *Meaning of recognize in English*. Ar gael o: <https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/recognize> Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Carter, C. a Nutbrown, C. (2016) 'A pedagogy of Friendship: young children's friendships and how schools can support them,' *International Journal of Early Years Education*, 24(4), t.395-413. Ar gael o: http://shura.shu.ac.uk/12598/3/CIEY-2015-0042_A_Pedagogy_of_Friendship_-_Carter_and_Nutbrown_CC_shura%20copy_15.6.16.pdf Darllenwyd: 30^{ain} o Dachwedd 2022)

Catch 22 (dim dyddiad) *Substance misuse*. Ar gael o: <https://www.catch-22.org.uk/offers/substance-misuse/> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Clarity Blog (2020) *Parents Judging Othr Parents*. Ar gael o: <https://www.claritychi.com/parents-judging-other-parents/> (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

Comisiynydd Plant Cymru (dim dyddiad) *CCUHP – Halwliau Plant*. Ar gael o: <https://www.complantcymru.org.uk/ccuhp-hawliau-plant/ccuhp-hawliau-planthttpswww-youtube-comwatchvvs1usdrn->

[voindex4listplgsiznczbjkhq3lfdktmsbnlhtbzu5yrc/](#) (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

Community Playthings (2012) *Cultural diversity in the early years*. Ar gael o: <https://www.communityplaythings.co.uk/learning-library/articles/cultural-diversity-in-the-early-years> (Darllenwyd: 3ydd o Rhagfyr 2022)

Cheminais, R. (2009) *Effective multi-agency partnerships: Putting every child matters into practice*. Sage. (Darllenwyd: 27^{ain} o Dachwedd 2022)

Child Care Extension (2019) *Adapting the Child Care Environment for Children with Special Needs*. Ar gael o: <https://childcare.extension.org/adapting-the-child-care-environment-for-children-with-special-needs/> (Darllenwyd: 3ydd o Rhagfyr 2022)

Dawson, S (2021) *10 best kids' books that celebrate diversity*. Ar gael o: <https://www.independent.co.uk/extras/indybest/books/childrens/best-childrens-books-about-diversity-b1804631.html> (Darllenwyd: 4ydd o Rhagfyr 2022)

Departments of Education (2017) *Engaging parents and families*. Ar gael o: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/634733/Practice_example-Engaging_parents_and_families.pdf#:~:text=Schools%20and%20colleges%20that%20were%20successfully%20engaging%20parents,having%20any%20issues%20at%20home%20or%20at%20school. (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Early Years Careers (2015) *The importance of giving children a voice*. Ar gael o: <https://www.earlyyearscreers.com/eyc/latest-news/the-importance-of-giving-children-a-voice/#:~:text=Giving%20children%20a%20voice%20promotes%20self%20esteem%20and,a%20large%20role%20in%20how%20a%20child%20learns.> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Early Years Resources (2018) *The Importance of Doll Play and Diversity*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2018/02/doll-play-importance-and-diversity/#:~:text=Multi-cultural%20doll%20play%20helps%20promote%20the%20celebration%20of,which%20are%20all%20vital%20for%20a%20child%E2%80%99s%20development.> (Darllenwyd: 4ydd o Rhagfyr 2022)

Early Years Resources (2021) *Promoting Diversity in Your School Setting*. Ar gael o: <https://www.earlyyearsresources.co.uk/blog/2021/03/promoting-diversity-in-your-setting/> (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Elsa Support (dim dyddiad) *About us*. Ar gael o: <https://www.elsa-support.co.uk/about-elsa-support/#:~:text=An%20ELSA%20in%20a%20school%20is%20an%20Emotional,co%20unselling%20skills%20such%20as%20solution%20focus%20and%20friendship.> Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Exchange Family Center (2019) *The Benefits of Early Childhood Friendship and 3 Tips for Helping Your Child Establish Meaningful Friendship*. Ar gael o: <https://www.exchangefamilycenter.org/exchange-family-center-blog/2019/10/1/the-benefits-of-early-childhood-friendships-and-3-tips-for-helping-your-child-establish-meaningful-friendships> (Darllenwyd: 30^{ain} o Dachwedd 2022)

Ferdman, B. (2021) *Inclusive Leadership*. New York: Routledge. (Darllenwyd: 15^{fed} o Dachwedd 2022)

Firstpost (2020) *Mattel's newest versions of the iconic doll show Barbie is still reinventing herself after all these years*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://www.firstpost.com/living/mattel-newest-versions-of-the-iconic-doll-show-barbie-is-still-reinventing-herself-after-all-these-years-7976001.html> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Fitzgerald, D. a Kay. L. (2016) *Understanding early years policy*. Sage (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Freud, A. (dim dyddiad) *Engaging with all parents and carers*. Ar gael o: <https://www.annafreud.org/media/9165/supporting-schools-to-engage-with-all-parents-and-carers-booklet.pdf> (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

Gibson, S. a Blandford, S. (2005) *Managing special educational needs: A practical guide to primary and secondary schools*. London. Sage. (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Greenacres (2015) *Equality and Diversity Policy*. Ar gael o: <http://www.greenacres-childcare.co.uk/wp-content/uploads/2015/08/greenacres-childcare-equality-and-diversity-policy.pdf> (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Sir Gaerfyrddin (dim dyddiad) *Tîm o Amgylch y Teulu*. Ar gael o: <https://fis.carmarthenshire.gov.wales/tim-o-amgylch-y-teulu/?lang=cy> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Hearst, A. (2012) *Children and the politics of cultural belonging*. Cambridge University Press. (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Kids around the clock (dim dyddiad) *Understanding the barriers which can prevent partnership working with parents*. Ar gael o: <https://kidsaroundtheclock.co.uk/understanding-barriers-can-prevent-partnership-working-parents/> (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

Liddicoat, A.J. (2014) 'The interface between macro and micro-level language policy and the place of language pedagogies,' *International Journal of Pedagogies and Learning*, 9(2), pp.118-129. Ar gael o: <https://core.ac.uk/download/pdf/80791421.pdf> (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Little I & O (2019) *Dolls with Down Syndrome*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://littleiando.com.au/products/down-syndrome-baby-dolls?variant=19347986513989> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Loweth, K. (2022) *32 Toys That Encourage Diversity & Inclusion*. Ar gael o: <https://tinybeans.com/diverse-inclusive-toys/slide/1> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Llywodraeth Cymru (2015) *Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol*. Ar gael o: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/thema-5-datblygu-partneriaethau-cymunedol-a-gweithio-amlasiantaethol-adnoddau-1-2.pdf> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Llywodraeth Cymru (2018) *Voices of Children and Young People in the New Curriculum for Wales*. Ar gael o: <https://cwricwlwmigymru.llyw.cymru/2018/03/05/lleisiau-plant-a-phobl-ifanc-yn-y-cwricwlwm-newydd-i-gymru/> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Mens Group (dim dyddiad) *What are father support groups?* Ar gael o: https://mensgroup.com/father-support-groups/#The_Benefits_of_Father_Support_Groups (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

Muir, R (2022) *It's 'INCLUSIVE' Barbie! From a hearing impaired doll to transgender and conservationist toys - how the iconic doll has changed.* Ar gael o: <https://www.dailymail.co.uk/news/article-11115893/Its-INCLUSIVE-Barbie-hearing-impaired-doll-transgender-conservationist-toys.html> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Mullins, L. (2021) *Will social workers take your children away?* Ar gael o: [https://kar.kent.ac.uk/55433/3/2016%20JSP%20stigma%20paper%20final%20post-print%20\(2\).pdf](https://kar.kent.ac.uk/55433/3/2016%20JSP%20stigma%20paper%20final%20post-print%20(2).pdf) (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

NHS (dim dyddiad) *Speech and Language and Therapist.* Ar gael o: <https://learning-disability.hee.nhs.uk/careers/find-a-role-to-suit-you/allied-health-professions-ahps/speech-and-language-therapist/> (Darllenwyd: 29^{ain} o Dachwedd 2022)

NSPCC (2019) *Multi-agency working.* Ar gael o: <https://learning.nspcc.org.uk/child-protection-system/multi-agency-working-child-protection#article-top> (Darllenwyd: 28^{ain} Dachwedd 2022)

Nutbrown, C. Clough, P. a Atherton, F. (2013) *Inclusion in the early years.* Sage. (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Randel, A. et al. (2018) 'Inclusive leadership: Realizing positive outcomes through belongingness and being valued for uniqueness,' *Human Resource Management Review*. 28. pp 190-223. DOI: 10.1016/j.hrmr.2017.07.002, pp. 190-203. Ar gael o: <https://link.springer.com/content/pdf/10.1007/s13158-021-00286-8.pdf?pdf=button> (Darllenwyd: 24^{ain} o Dachwedd 2022)

Rodd, J. (2020) *Leadership in early childhood: The pathway to professionalism.* Routledge. (Darllenwyd: 25^{ain} o Dachwedd 2022)

Sauto-Manning, M. et al. (2021) 'Troubling belonging: The racialized exclusion of young immigrants and migrants of color,' *International Journal of Early Childhood*, 53(1), t.101-118. (Darllenwyd 23^{ain} o Dachwedd 2022)

Scanlan, M. a Johnson, L. (2020) *Leadership for increasingly diverse schools* (pp. 227-258). Routledge. (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

Science Direct (dim dyddiad) *Micropolitics*. Ar gael o: <https://www.sciencedirect.com/topics/economics-econometrics-and-finance/micropolitics#:~:text=Concept%3A%20%E2%80%98micropolitics%E2%80%99%20is%20a%20specific%20perspective%20in%20organization,there%20is%20uncertainty%20or%20dissent%E2%80%99%20%28Pfeffer%201981%20p.>

(Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Scholastic Blog (2020) *Diverse Children's Book Recommendations*. Ar gael o: <https://www.scholastic.co.uk/blog/Diverse-Childrens-Book-Recommendations-40252>

(Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Siraj-Blatchford, I. a Clarke, P. (2000) *Supporting identity, diversity and language in the early years*. McGraw-Hill Education (UK) (Darllenwyd: 3^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Siraj-Blatchford, I. a Hallet, E. (2014) *Effective and caring leadership in the early years*. London: SAGE (Darllenwyd 22^{ain} o Dachwedd 2022)

Smith, G. (2005) *Children's perspectives on believing and belonging*. Jessica Kingsley Publishers. (Darllenwyd: 30^{ain} o Dachwedd 2022)

Teaching Mama (2020) *Multicultural Books for Early Childhood Classrooms*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://teachingmama.org/multicultural-books-for-early-childhood-classrooms/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

Wages, M. (2016) *Parents involvement: Collaboration is the key for every child's success*. Rowman & Littlefield. (Darllenwyd: 28^{ain} o Dachwedd 2022)

Yarn Strong Sista (2020) *Diversity and Inclusive Dolls*. [Delwedd]. Ar gael o: <https://www.yarnstrongsista.com/product-category/anti-bias-and-inclusion/diversity-and-inclusive-dolls/> (Darllenwyd: 4^{ydd} o Rhagfyr 2022)

